Dafydd Elis-Thomas AS
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 29 Medi 2020

Pwnc | Subject: Rhagor o **wybodaeth am gymorth ar gyfer y portffolio Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

Annwyl Dafydd,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 17 Medi. Roedd yn ddefnyddiol iawn clywed am y gwaith y mae eich adran wedi bod yn ei wneud i ddarparu cyllid a chymorth i'r unigolion a'r sefydliadau o fewn eich cylch gwaith. Rydym hefyd wedi clywed sylwadau cadarnhaol gan randdeiliaid ynghylch rôl Cymru Greadigol wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gytuno i ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach am rai o’r pynciau a drafodwyd.

**Cyllid**

Gwnaethoch grybwyll fod eich adran yn parhau i ystyried opsiynau o ran ffynonellau cyllid i gefnogi ein sefydliadau cenedlaethol nad ydynt yn gymwys i wneud cais am y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi unrhyw fanylion pellach i ni ynghylch yr ymdrechion hyn.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud y byddai asesiad yn cael ei gynnal o'r gwariant i gefnogi'r unigolion a'r sefydliadau sy'n gweithio yn y meysydd o fewn eich cylch gwaith. Yn ddealladwy, dim ond ar ôl i'r angen dybryd am gymorth leihau y bydd hyn yn digwydd. A allwch amlinellu sut rydych yn bwriadu asesu gwerth am arian o ran y cyllid brys?

Yn y cyfarfod, gwnaethoch ddweud nad yw'r £7 miliwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddyrannu i gefnogi gweithwyr llawrydd creadigol “yn ddigonol, a chredaf ei bod yn iawn i ni ddweud ein bod wedi ceisio gwneud yr hyn a oedd yn bosibl”. O ystyried y prinder cyllid cydnabyddedig hwn, pam na ddyrannodd Llywodraeth Cymru y swm canlyniadol Barnett llawn o £59 miliwn (a ddaeth yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU i gynyddu cyllid diwylliant) i'w Chronfa Adferiad Diwylliannol, yn hytrach na'r £53 miliwn y mae wedi'i ddyrannu i'r gronfa hon?

**Mynediad i safleoedd treftadaeth**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

Gwnaethom drafod y gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr i safleoedd treftadaeth ac amgueddfeydd. A allwch roi ffigurau diweddar i ni sy'n dangos pa ganran o'r nifer arferol o ymwelwyr y gellir darparu ar eu cyfer – ac sydd wedi ymweld – â safleoedd CADW ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru ers i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio?

A yw mynediad i safleoedd CADW a lleoliadau Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cael ei reoli'n weithredol? Hynny yw, a yw'n bosibl rhoi blaenoriaeth i rai grwpiau, fel plant ysgol? Os felly, sut ydych chi wedi nodi grwpiau blaenoriaeth, a sut y rheolwyd mynediad â blaenoriaeth?

**Newyddiaduraeth a chyfryngau lleol**

Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod eich cyfarfod â Reach plc ac Undeb Cenedlaethol y Newyddiadurwyr wedi digwydd. Rwy'n gwybod eich bod hefyd yn pryderu am y diswyddiadau yn Reach plc o ganlyniad i ostyngiadau refeniw.

Gwnaethoch ddweud eich bod wedi gofyn i Cymru Creadigol edrych ar sut y gall gefnogi cyhoeddiadau annibynnol fel corff hyd braich. A allwch egluro a yw hyn yn ymwneud â'r sector newyddion? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud y canlynol wrthym:

- Y cylch gwaith yn y maes hwn yr ydych wedi gofyn i Cymru Greadigol edrych arno;
- Yr amserlen sydd gan Cymru Greadigol i gyflwyno cynigion i chi;
- A oes cyllideb ynghlwm  gwaith hwn, ac os felly, beth yw hon?

Yn olaf, nid oedd digon o amser ar ôl i ni allu gofyn a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gefnogi'r sector Radio Cymunedol? Rydym wedi clywed tystiolaeth am y rôl hollbwysig a oedd gan y sector hwn o ran darparu gwybodaeth gyfredol a chywir yn ystod y pandemig. A allech gadarnhau a oes gennych gynlluniau i gefnogi'r sector, naill ai gyda chyllid uniongyrchol neu ragor o hysbysebu?

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.